Cymdeithas Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Benfro

Eich cyngor gwirfoddol sirol lleol

11. Ymgyrchu a dylanwadu

11.8 Deisebu Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Trosolwg

Mae'r system ddeisebu yn darparu dull defnyddiol i ddinasyddion Cymreig roi gwybodaeth i Gynulliad Cenedlaethol Cymru am faterion sy'n effeithio arnynt. Mae'r system ddeisebu a'r Pwyllgor Deisebau yn ddatblygiadau yn sgil Deddf Llywodraeth Cymru 2006. Mae'r system yn debyg i systemau deisebu mewn gwledydd eraill, ond mae yna wahaniaethau pwysig sy'n gwneud y system Gymreig yn ddull defnyddiol ac effeithiol i ymrwymo gyda'r Cynulliad. Gall y cyhoedd Cymreig ddeisebu'r Cynulliad ar unrhyw fater sy'n debygol o fod o fewn eu pwerau. Mae deisebau sy'n dderbyniol (y rhai sy'n cwrdd â'r meini prawf a osodwyd gan y Cynulliad) yn cael eu pasio i'r Pwyllgor Deisebau sy'n ystyried pob deiseb a phenderfynu pa weithrediad pellach, os o gwbl, sydd ei angen.

Sut fedra i gyflwyno deiseb?

Gellir cyflwyno deiseb yn ysgrifenedig neu drwy system ar-lein e-ddeiseb y Cynulliad. Mae'r Cynulliad yn awyddus i annog pobl i ddefnyddio'r system e-ddeiseb oherwydd gellir casglu llofnodion ar-lein. Gall y system e-ddeiseb hefyd fod yn ddefnyddiol i fudiadau oherwydd rhwyddineb cylchlythyru gwybodaeth i eraill am sut i lofnodi deiseb. Gall staff y Cynulliad helpu gydag ystod a geirio'r e-ddeiseb cyn iddo fynd ar y wefan er mwyn sicrhau ei fod mor effeithiol â phosib.

Ar ba fath o bethau all fy neiseb fod?

Rhaid i'ch deiseb fod ar bwnc sydd yn rhan o bŵer Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Mae gan y Cynulliad bwerau sylweddol yn yr 20 maes canlynol:

- Amaeth, pysgodfeydd, coedwigaeth a datblygiad gwledig
- Henebion ac adeiladau hanesyddol
- Diwylliant
- Datblygiad economaidd
- Addysg a Hyfforddiant
- Yr Amgylchedd
- Gwasanaethau tân ac achub a hyrwyddo diogelwch tân
- Bwyd

- Iechyd a gwasanaethau iechyd
- Priffyrdd a thrafnidiaeth
- Tai
- Llywodraeth leol
- Cynulliad Cenedlaethol Cymru
- Gweinyddiaeth gyhoeddus
- Lles cymdeithasol
- Chwaraeon a hamdden
- Twristiaeth
- Cynllunio tref a gwlad
- Amddiffynfeydd dŵr a llifogydd
- Yr iaith Gymraeg

Gellir defnyddio'r system deisebu i amlygu'r angen am gyfraith newydd, gofyn i'r Cynulliad am y pwerau i wneud deddfau penodol os nad ydynt gyda hwy yn barod, neu newid cyfraith a osodwyd gan Ddeddf Seneddol. Ond nid yn unig ar gyfer deddfwriaeth y gellir deisebu - gellir defnyddio'r system i ofyn am newid polisi. Gall edrych ar ddeisebau a gyflwynwyd eisoes, cyn i chi ddechrau, fod yn ddefnyddiol ar gyfer syniadau ystod a geirio. Gellir darganfod y rhain ar:
http://www.assemblywales.org/admissible-pet.htm

Beth yw meini prawf deiseb dderbyniol?

Er mwyn derbyn deiseb (ac felly ei ystyried gan y Pwyllgor Deisebau) rhaid iddo gwrdd â'r meini prawf canlynol:

- Rhaid iddo gynnwys o leiaf 10 llofnod neu ddod oddi wrth gorff corfforaethol.
- Ni all gynnwys iaith anweddus.
- Rhaid iddo fod o fewn ystod swyddogaethau'r Cynulliad.
- Ni all fod yr un peth / yn debyg i ddeiseb flaenorol oddi wrth yr un person / corff a gyflwynwyd o fewn y flwyddyn ddiwethaf.
- Ni all gysylltu â phwnc a ystyriwyd yn barod gan y Pwyllgor Deisebau o fewn y flwyddyn ddiwethaf.
- Ni all ofyn i'r Cynulliad ymyrryd ym mhenderfyniad neu weithredoedd awdurdodau lleol neu Gyrff Cyhoeddus a noddwyd gan y Cynulliad.
- Ni all gysylltu â materion sy'n amodol ar drafodion cyfreithiol yn y llys.
- Ni all gynnwys dyfarniadau diddordebau personol neu fasnachol.

Os nodir bod deiseb yn annerbyniol, bydd clerc y Pwyllgor Deisebau yn ysgrifennu at y prif ddeisebwr gydag esboniad. Gall y clerc gynnig cyngor a chymorth ar sut i wneud y ddeiseb yn dderbyniol, ac felly'n cynnig adnodd defnyddiol iawn i unrhyw un sy'n ystyried defnyddio'r broses ddeisebu.
Hefyd, mae yna dermau ac amodau i'w cwrdd os hoffech roi eich deiseb ar-lein a chasglu llofnodion yn y modd yma.

Mae'r rhain yn cynnwys pethau fel peidio cynnwys gwybodaeth gyfrinachol neu enllibus; defnydd iaith weddus; cefnogaeth gwasanaethau neu gynnyrch, ac ati. Mae'r rhain i gyd yn amodau gweddol syml, a gall y clerc eich helpu gyda hyn os oes angen.

Beth fydd yn digwydd i'r ddeiseb, a pha ganlyniadau allaf eu disgwyl?

Unwaith bydd y ddeiseb yn dderbyniol, bydd yn mynd drwy'r broses ganlynol:

Cam 1 - Asesiad Ysgrifenyddiaeth. Asesir y ddeiseb gan glerc y pwyllgor, a all ofyn i'r prif ddeisebwr am wybodaeth neu dystiolaeth bellach. Gall y timau deiseb baratoi nodiadau briffio ar gyfer y pwyllgor, yn amlygu cyd-destun polisi a chyfreithiol. Gall y cam yma gymryd ychydig wythnosau.
Cam 2 - Ystyriaeth y Pwyllgor. Mae'r Pwyllgor Deisebau yn bwyllgor o AC yn cynrychioli pob plaid o fewn y Cynulliad, sy'n cwrdd bob pythefnos pan yw'r Cynulliad mewn sesiwn. Eu hunig bwrpas yw ystyried y deisebau cyhoeddus a gyflwynwyd. Mae hwn yn drefniant weddol unigryw, ac mae'n golygu cyn belled â bod eich deiseb yn cwrdd â'r meini prawf, bydd yn mynd gerbron y pwyllgor - cyfle gwych i chi godi eich materion o flaen grŵp AC amlbleidiol.
Bydd y pwyllgor yn ystyried pob deiseb ac yn penderfynu ar y cam nesaf. Wrth wneud hyn, gall ofyn am wybodaeth bellach gan y deisebwyr, y mudiadau perthnasol neu Weinidogion y Cynulliad, naill ai'n ysgrifenedig neu ofyn iddynt fod yn bresennol o flaen y pwyllgor. Unwaith y derbynnir y wybodaeth, bydd y Pwyllgor yn penderfynu ar y cam nesaf. Gall y Pwyllgor hefyd gyfeirio'r ddeiseb at bwyllgor arall o'r Cynulliad e.e. Pwyllgor Cymunedau a Diwylliant, os yn weddus. Gall y pwyllgor hefyd gau'r ddeiseb a gwrthod gweithredu ymhellach.

Canlyniadau posib - Mae yna amrywiaeth o ganlyniadau posib, ac mae'n bwysig rheoli eich disgwyliadau ac ystyried opsiynau lobïo eraill fel bo angen. Mae ein taflenni gwybodaeth eraill ar Ddylanwadu'r Cynulliad ac Ymgyrchu yn darparu gwybodaeth ddefnyddiol ar hyn.

Mae'r system ddeisebu yn ddefnyddiol iawn i godi ymwybyddiaeth am fater na sy'n hysbys i AC, neu nad oedd yn uchel ar yr agenda politicaidd. Gall canlyniadau'r broses gynnwys pwyllgor y Cynulliad yn cynnal ymchwiliad i fater neu fod AC unigol yn cymryd y mater a holi cwestiynau i Weinidogion neu gynnal dadl ar y mater yn y Cynulliad. Gall y pwyllgor basio'r ddeiseb ymlaen i gorff arall, e.e. Asiantaeth yr Amgylchedd, a all ystyried y mater a gweithredu ble bo angen. Ni fydd pob deiseb yn arwain at greu deddfwriaeth newydd neu newid ym mholisi'r Llywodraeth, ond mae'r posibiliadau yma yn bodoli, a gallwch ddenu cyhoeddusrwydd defnyddiol dros ben a chefnogaeth i'ch mater yn y broses. Dyma gyfle ardderchog i ofyn i bwyllgor y Cynulliad i archwilio materion sy'n bwysig i bobl Cymru.

Cyfyngiadau'r Pwyllgor - ni all y pwyllgor ddymchwel penderfyniadau Llywodraeth y DU, Llywodraeth Cynulliad Cymru nag awdurdodau lleol; nac ymchwilio materion a ddatganolwyd i'r Cynulliad neu sydd o dan awdurdod yr awdurdodau lleol; nac ymyrryd mewn anghydfod cyfreithiol.

Beth yw cyfleoedd y trydydd sector?

Mae'r system ddeisebu yn darparu dull hygyrch iawn i godi eich materion ar lefel y Cynulliad Cenedlaethol. Os yw eich deiseb yn cwrdd â'r meini prawf gofynnol, fe *fydd* yn cael ei ystyried gan y Pwyllgor, gan ddarparu llwyfan ardderchog i ddod â'ch mater dan sylw'r AC. Mae'r system yn medru darparu ffordd i mewn i bwyllgorau eraill a gall godi ymwybyddiaeth gyhoeddus, boliticaidd a chyfryngol. Mae hefyd yn gyfle i roi ffocws i gasglu gwybodaeth a chefnogaeth ar gyfer ymgyrch penodol. Yn annhebyg i ddulliau lobïo eraill, nid yw'r dull yma angen cefnogaeth AC unigol er mwyn dechrau'r broses. Gan fod hyn yn system newydd, mae'r Cynulliad yn awyddus i annog a chefnogi mudiadau i'w ddefnyddio, a gellir darparu cefnogaeth er mwyn sicrhau fod eich deiseb mor effeithiol â phosib.

Awgrymiadau ar ddefnyddio'r system ddeiseb

- Meddyliwch sut mae eich cais yn cyd-fynd a phwerau'r Cynulliad. Ystyriwch os oes gan y Cynulliad y pŵer i wneud beth rydych chi eisiau. Os na, oes angen i chi newid geiriad eich deiseb fel eich bod yn holi'r Cynulliad i ofyn am bwerau neu yn hytrach gofyn iddynt wneud cynrychiolaeth yn San Steffan? Byddwch yn hollol glir beth rydych angen i'r pwyllgor ei wneud. Defnyddiwch y ddeiseb i ofyn am rywbeth yn hytrach na chodi ymwybyddiaeth am fater neu bryder - cynigiwch ateb i'r broblem a nodir. Er enghraifft, efallai byddwch eisiau amlygu effeithiau peidio cael deddfwriaeth benodol; darparwch dystiolaeth amdano a gofynnwch i'r Cynulliad ddeddfu yn y maes yna.
- Byddwch yn gadarnhaol. Peidiwch defnyddio'r system i feirniadu polisi neu ddeddfwriaeth gyfredol, byddwch yn bositif ac awgrymu dulliau eraill o wneud hyn, a gweithredoedd positif.
- Wrth wrthwynebu cynnig Llywodraethol, ewch â'ch deiseb cyn gynted â phosib.
- Siaradwch â'r clerc yn gyntaf. Byddant yn darparu cefnogaeth i chi gyda'ch deiseb i sicrhau fod y geiriad a'r ystod yn caniatáu'r canlyniad gorau posib, a'i wneud yn hygyrch ar gyfer y pwyllgor.
- Casglwch lofnodion oddi wrth amrywiaeth o gyrff cefnogol; nid yw bob amser am y nifer, ond am yr ansawdd. Derbynnir unrhyw ddeiseb gyda 10 llofnod (os yw'r cwrdd â'r meini prawf). Golyga hyn y gall 10 llofnod fod cystal ag 110, ond byddai'n ddefnyddiol casglu oddi wrth ystod o bobl a mudiadau i ddangos eich bod wedi ymgynghori a chael cefnogaeth ar gyfer eich deiseb.

Mae tîm prosiect Lleisiau dros Newid Cymru yn medru darparu cefnogaeth a chymorth gydag unrhyw agwedd o'r broses ddeiseb, a byddant yn falch i glywed oddi wrthych os ydych yn ystyried cyflwyno deiseb, ac yr hoffech wybod mwy.

Gwybodaeth bellach

Mae **Lleisiau dros Newid Cymru** yn un o brosiectau WCVA ac fe'i cefnogir gan y Gronfa Loteri Fawr. Erbyn hyn, mae mwy o gyfleoedd nag erioed i'ch llais gael ei glywed, a nod y prosiect yw darparu gwasanaethau i alluogi mudiadau trydydd sector i ddylanwadu ar y rhai sy'n gwneud penderfyniadau ar lefel lleol a chenedlaethol.

Ffôn: 0800 2888 329
vfcc@wcva.org.uk
www.voicesforchangecymru.org.uk

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
www.cynulliadcymru.org

Tudalennau e-ddeisebau
www.cynulliadcymru.org/gethome/e-petitions.htm

Ymwadiad
Mae'r wybodaeth a ddarperir yn y daflen hon ar gyfer cyfarwyddyd yn unig. Nid yw'n amnewid am gyngor proffesiynol ac ni allwn dderbyn unrhyw gyfrifoldeb am golled o ganlyniad i unrhyw berson weithredu neu wrthod gweithredu arno.

Am rhagor o wybodaeth cysylltwch â

Cymdeithas Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Benfro
36-38 Stryd Fawr, Hwlffordd, Sir Benfro, SA61 2DA
Elusen Gofrestredig *1063289*

Ffôn: 01437 769422 enquiries@pavs.org.uk
Ffacs: 01437 769431 www.pavs.org.uk

Cynhyrchwyd gan WCVA, Cynghorau Gwirfoddol Sirol a Chanolfannau Gwirfoddoli
Wedi ei ddiweddaru:17/06/2011

Cyngor Gwirfoddol Cymru WCVA Wales Council for Voluntary Action
Ffôn: 0800 2888 329
www.wcva.org.uk